

## Adroddiad Blynyddol Fforwm Derbyniadau 2022/23

**Awdurdod Derbyn: Bro Morgannwg**

Ysgrifennydd i'r Fforwm: **Sam Mawhinney**

Manylion cyswllt: **01446 - 709725**

Cyfeiriad: **Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri, CF63 4RU**

### Aelodaeth a mynychu'r Fforwm

Enw	Swydd	Amser a wasanaethwyd fel Aelod o'r Fforwm *	Aelodaeth yn ôl categori (gweler y tabl isod)
1. Y Cynghorydd Rhiannon Birch	<b>Cadeirydd</b>	18 mis (penodwyd 10/06/22)	ALI
2. Lisa Lewis	<b>Is-gadeirydd</b>	9 Mlynedd (ail-etholwyd 26/6/22)	ALI
3. Jane Werrett	Rheolwr Achosion Cymhleth	12 mlynedd (ail-etholwyd 07/06/23)	ALI
4. Sam Mawhinney	Hygyrchedd a Threfniadaeth Ysgolion	5 mlynedd (ail-etholwyd 18/11/22)	ALI
5. Mike Matthews	Hygyrchedd a Threfniadaeth Ysgolion	5 mlynedd (ail-etholwyd 24/06/22)	ALI
6. Rebecca Morteo	Cyfarwyddwr Addysg Statudol yr Esgobaeth	18 mis (penodwyd 10/06/22)	AGC

<b>Enw</b>	<b>Swydd</b>	<b>Amser a wasanaethwyd fel Aelod o'r Fforwm *</b>	<b>Aelodaeth yn ôl categori (gweler y tabl isod)</b>
7. Anne Robertson	Cyfarwyddwr Esgobaethol, Catholig	11 mlynedd (ail-etholwyd 18/11/22)	RC
8. Charlotte Robins	Pennaeth, Ysgol Llanilltud Fawr	6 mis (penodwyd 10/06/23)	Y/CG
9. James Mansfield	Pennaeth, Ysgol Stanwell	6 mis (penodwyd 10/06/23)	Y/S
10. Ceri Thomas	Pennaeth, Ysgol Gynradd a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes	10 mlynedd (ail-ethol 09/06/21)	Y/GG
11. Sarah Owen	Cynrychiolydd llywodraethwyr CLIYF (Sylfaen)	3 Blynedd (penodwyd 30/11/20)	RhL
12. Ceri Hunt	Cynrychiolydd llywodraethwyr CLIYF (Cynradd)	6 mis (penodwyd 10/06/23)	RhL
13. Sian Lewis	Pennaeth, Ysgol Gynradd Fairfield	7 mlynedd (ail-etholwyd 29/11/19)	Y/CG
14. Rhian Andrew	Pennaeth, Ysgol Sant Baruc	7 Mlynedd (ail-etholwyd 09/06/21)	Y/CG

**\*Os gwasanaethodd am fwy na 4 blynedd, dylid cynnwys dyddiad ail-ethol hefyd.**

## Acronymau ar gyfer Aelodau Craidd

Enwebwyd yr Aelodau gan	Aelodaeth Graidd	Acronym
ALI - unrhyw aelod neu swyddog o'r awdurdod	1 i 5	<b>ALI, ALI/AAA, ALI/PDG</b> (Plant sy'n Derbyn Gofal)
Cynrychiolwyr Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru	1 i 3	<b>yr Eglwys yng Nghymru</b>
Cynrychiolwyr yr Esgobaeth Gatholig	1 i 3	<b>C</b>
Ysgolion - cymunedol a gwirfoddol a reolir	1 i 3	<b>Y/CG</b>
Ysgolion - sefydliedig	1 i 3	<b>Y/S</b>
Ysgolion - gwirfoddol a gynorthwyr	1 i 3	<b>Y/GG</b>
Cynrychiolwyr sy'n Rhiant-lywodraethwyr	1 i 3	<b>RhL</b>
Cynrychiolwyr y gymuned leol	Hyd at 3	<b>CYM/L</b>

## Dyddiadau cyfarfodydd a phresenoldeb

	Dyddiad	Nifer yr Aelodau o'r Fforwm yn bresennol - yn ôl categori
<b>Cyfarfod cyntaf</b>	<b>18/11/22</b>	<b>3 (ALI), 1 (C), 2 Y/CG, 1 (Y/GG), 1 (RhL), 1 (Y/S)</b>
<b>Ail gyfarfod</b>	<b>09/06/23</b>	<b>3 (ALI), 1 (C), 1 (Y/CG), 1 (Y/S), 1 (Y/GG)</b>

**A yw eich awdurdod wedi sefydlu fforwm ar y cyd ag awdurdod lleol cyfagos?**

**Os ydyw, nodwch fanylion yr awdurdod dan sylw a pha mor llwyddiannus y bu hyn.**

Nid yw'r awdurdod wedi sefydlu fforwm ar y cyd.

**Cadarnhewch a yw'r awdurdodau derbyn o fewn ardal y fforwm wedi cwblhau'r ymgynghoriad a phenderfynu ar drefniadau derbyn o fewn y terfynau amser sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 [gan gynnwys ymgynghoriad ar y trefniadau erbyn 1 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu a phenderfynu ar y trefniadau terfynol erbyn 15 Ebrill y flwyddyn honno].**

Gwnaeth Bro Morgannwg ymgynghori ar ei threfniadau derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol a gwirfoddol a reolir a'u penderfynu o fewn yr amserlenni angenrheidiol. Diweddarwyd y Fforwm Derbyn â gwybodaeth ynghylch polisi'r Cyngor ym mis Tachwedd 2022. Ymgynghorodd y Cyngor ar y trefniadau ar gyfer 2024/2025 rhwng 9 Ionawr 2023 a 17 Chwefror 2023. Cymeradwywyd canlyniadau'r broses ymgynghori a'r trefniadau derbyn terfynol gan y Cabinet a'u pennu erbyn 30 Mawrth 2023. Adlewyrchwyd y trefniadau yn y Canllaw Rhieni i Dderbyniadau i Ysgolion a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023 ar gyfer trefniadau derbyn i ysgolion ar gyfer mis Medi 2024.

Ymgynghorodd pob un o'r awdurdodau derbyn eraill ym Mro Morgannwg a phenderfynu ar eu trefniadau derbyn yn 2021/22. Ni fu unrhyw newidiadau i'w trefniadau derbyn ers penderfynu. Bydd gofyn iddynt ymgynghori eto yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24.

Mae Llywodraeth Cymru, trwy Grŵp Swyddogion Derbyn i Ysgolion Cymru, wedi gofyn i ALLau yn flaenorol i ystyried a oes gan eu hysgolion a gynorthwyr bolisiau derbyn sy'n cydymffurfio â'r Cod Derbyn i Ysgolion a'u bod yn ymgynghori ar eu bolisiau derbyn o fewn yr amserlen angenrheidiol yn unol â Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006. Mae'r Fforwm yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth â'r gofyniad hwn ac yn mynd i'r afael â phryderon, os o gwbl, gydag awdurdodau derbyn unigol drwy'r aelod priodol o'r fforwm.

**Os na fydd unrhyw awdurdod derbyn wedi bodloni'r terfynau amser, rhwch fanylion yma.**

**AMH Mae'r Cyngor yn monitro cynnydd ac yn aros am y ddogfennaeth**

**Faint o ddogfennau ymgynghori ydych chi wedi'u gweld gan awdurdodau derbyn (heb gynnwys awdurdodau lleol eraill)?** Cyngor Rhondda Cynon Taf, Ysgol Stanwell, Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath, Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Caerdydd, Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi, Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Seintiau.

**AMH Mae'r Cyngor yn monitro cynnydd ac yn aros am y ddogfennaeth**

**Pa drefniadau derbyn sydd wedi'u gweithredu er mwyn bod o fudd i blant sy'n agored i niwed?**

Mae protocol symudiadau wedi'u rheoli ar waith sy'n caniatáu i bob ysgol ymgymryd â symudiadau wedi'u rheoli gyda chymeradwyaeth PICEM yng ngoleuni atgyfeiriad yn cael ei gyflwyno. Mae symudiadau wedi'u rheoli yn drosglwyddiad a gynllunnir yn ofalus o ddisgybl o un ysgol i'r llall sy'n galluogi plentyn neu berson ifanc i symud ymlaen i leoliad neu raglen newydd mewn ffordd sy'n dderbyniol i bob parti priodol, yn enwedig y disgybl.

Mae'r Cyngor wedi gweld cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu hystyried yn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) a'r niferoedd sydd angen symudiadau wedi'u rheoli. Mae swyddogion yn canfod bod opsiynau ar gyfer lleoliadau arbenigol / darparwyr amgen yn dod yn fwyfwy cyfyngedig.

Mae Panel Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi cael ei sefydlu i gyflawni'r ddyletswydd a osodir ar awdurdodau lleol yn Adran 19 o Ddeddf Addysg 1996 i wneud trefniadau ar gyfer darpariaeth addas i ddysgwyr nad ydynt bellach yn gallu mynychu ysgol prif ffrwd am unrhyw reswm, gan gynnwys salwch, materion yn gysylltiedig â iechyd meddwl a gwahardd (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt). Mae'r panel yn sicrhau bod model effeithiol, integredig a pharhaol o atgyfeirio i ddarpariaeth amgen arbenigol ar gael. Rydym yn ystyried lleoli disgyblion ag anghenion penodol mewn darpariaethau arbenigol ar draws yr ALI – Derw Newydd-YYD, Hafan-YYD, Horizon ar gyfer y rheiny nad ydynt yn mynychu sy'n dioddef â gorbryder-YYD, CAA y Stryd Fawr. Mae gweithredu hyfforddiant y tu allan i'r ysgol (HTAY) a threfniadau darpariaeth tymor byr a dros dro eraill (gan gynnwys cymorth ar gyfer symudiadau wedi'u rheoli) yn cael eu pennu gan y Panel Iechyd Cymdeithasol Emosiynol a Meddyliol (PICEM). Mae'r protocol symudiadau wedi'u rheoli o fewn y broses PICEM yn galluogi ac yn sicrhau bod symudiadau wedi'u rheoli yn cael eu cofnodi, eu cefnogi a'u monitro'n briodol gan yr ALI. Felly, mae cytundebau y tu allan i'r broses hon yn anffurfiol ac ni fyddent yn cael eu cydnabod fel symudiadau wedi'u rheoli gan y PICEM ac o ganlyniad yr ALI yn ehangach.

Mae symudiadau wedi'u rheoli yn agwedd annatod o PICEM. Bydd symudiad wedi'i rheoli yn dilyn y Protocol Symudiadau wedi'u Rheoli. Bydd PICEM a'r protocol yn ceisio sicrhau bod symudiadau wedi'u rheoli yn cael eu gweithredu mewn modd teg a chyfartal er mwyn darparu'r cyfle gorau posibl i leoli'n llwyddiannus.

Cydnabu'r Fforwm fod y tîm Mynediad i Ysgolion yn gweithio'n agos gyda thimau priodol i sicrhau bod anghenion plant sy'n agored i niwed yn cael eu bodloni a'u bod yn cael eu derbyn i ysgolion cyn gynted â phosibl. Mae swyddogion allweddol a thimau sy'n gyfrifol am anghenion grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys Addysg PDG, plant sy'n colli addysg (PCA), Cyfiawnder Ieuenctid, y Gwasanaeth Ieuenctid, y Gwasanaeth Ymgysylltu a chydlynwyr ADY yn parhau i fod yn gysylltiadau allweddol i'r tîm derbyn. Bu cynnydd yn nifer y rhieni sy'n dewis Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADdC) sy'n cael ei fonitro'n ofalus.

### **A fuont yn llwyddiannus?**

Mae'r broses sydd wedi'i sefydlu'n dda wedi bod yn llwyddiannus ac yn parhau i gynnig i ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol ac sydd â phresenoldeb gwael, y cyfle i ddechrau o'r newydd. Mae symudiadau wedi'u rheoli yn parhau i ddarparu ateb arall yn lle gwaharddiadau parhaol. Crëwyd yr ICCME (iechyd corfforol, cymdeithasol, meddyliol ac emosiynol) i hwyluso lleoedd mewn ysgolion ar gyfer y disgyblion hynny a ystyriwyd yn flaenorol yn 'anodd eu gosod' am amryw o resymau.

### **Pa drefniadau eraill ydych chi wedi eu nodi er mwyn cefnogi'r plant hyn?**

Mae'r Fforwm yn parhau i gael ei gynrychioli ar y Grŵp Gweithwyr Proffesiynol Allweddol sy'n gyfrifol am ymateb i ddisgyblion y mae'n anodd ymgysylltu â nhw neu sydd heb ddarpariaeth ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod trefniadau derbyn o fewn yr awdurdod yn ategu'r gwaith pwysig a wneir o ran ein disgyblion mwyaf agored i niwed.

### **Pa mor dda y mae'r gweithdrefnau derbyn yn ystod y flwyddyn y cytunwyd arnynt wedi gweithio?**

Caiff mater derbyniadau yn ystod y flwyddyn ei drafod yn agored yn y Fforwm a chreffir ar adroddiadau perfformiad yn flynyddol. Mae'r Fforwm Derbyn wedi cofnodi ei foddhad o ran yr amserlen ar gyfer cwblhau'r holl drefniadau, sydd wedi bod ar 100% am y pedair blynedd academaidd diwethaf lle mae'r derbyn wedi bod o dan reolaeth yr Awdurdod Derbyn. (e.e. ac eithrio oedi pan fo teuluoedd yn symud cartref a phlant 'anodd eu lleoli'). Gall symudiadau wedi'u rheoli, er y cânt eu rheoli'n llwyddiannus, hefyd gymryd mwy na deg diwrnod ond nid oes llawer ohonynt ac nid ydynt yn rhan o'r ffigurau a roddir isod.

### **Faint o blant a dderbyniwyd i bob ysgol dan y gweithdrefnau?**

Gweler y tabl isod

### **A ydych chi wedi nodi cynnydd yn niferoedd y derbyniadau yn ystod y flwyddyn, os felly pa gamau gweithredu a nodwyd i fynd i'r afael â'r mater?**

Nodwyd bod gostyngiad bychan wedi bod yn nifer y trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn i ysgolion a reolir gan awdurdod derbyn Bro Morgannwg eleni. Derbyniwyd 1283 o geisiadau yn y flwyddyn academaidd hon, o'i gymharu â 691 yn 2021/22. Mae hyn yn fwyaf tebygol o fod wedi cael ei achosi oherwydd bod y cyfyngiadau'n gysylltiedig â COVID 19 wedi'u llacio a'r cynnydd mewn datblygiadau tai newydd ledled Bro Morgannwg. Mae'r tîm Derbyn a Threfniadaeth Ysgolion yn rhan o'r un tîm ac mae hyn yn galluogi continwmm o adolygu capasiti a rhagfynegiadau. Mae hyn yn galluogi rheoli lleoedd ysgol yn effeithiol iawn sy'n arwain at ddisgyblion yn cael cynnig lle ysgol yn brydlon hyd yn oed os nad yw'r awdurdod derbyn wedi gallu cynnig eu dewis cyntaf. Gwrandawyd ar yr holl apeliadau'n brydlon. Gweler y tabl ar ddiwedd yr adroddiad hwn am fwy o wybodaeth am berfformiad apeliadau.

Mae ceisiadau yn ystod y flwyddyn yn eitem drafod reolaidd.



N School Approached No. of Apps od 2022/23 = 1283 (ac eithrio symudiadau wedi'u rheoli)

School Approached	No. of Apps
Albert Primary School	55
Barry Island Primary School	13
Cadoxton Primary School	48
Cogan Primary School	23
Colcot Primary School	45
Cowbridge School	1
Dinas Powys Primary School	25
Evenlode Primary School	37
Fairfield Primary School	46
Gladstone Primary School (Barry)	52
Gwenfo CW Primary School	15
High Street Primary School	24
Holton Primary School	42
Jenner Park Primary School	33
Llandough Primary School	29
Llanfair Primary School	21
Llangan Primary School	16
Llantwit Major High School	76
Oakfield Primary School	14
Palmerston Primary School	17
Pencoedtre High School	83
Peterston-Super-Ely C/W Primary School	18
Rhws Primary School	32
Romilly Community Primary	32
South Point Primary	40
St Athan Primary School	23
St Cyres Comprehensive School	97
St Illtyd Primary School	51
St Nicholas C/W Primary School	9
Sully Primary School	25
Victoria Primary School	17
Whitmore High School	82
Y Bont Faen Primary School	25
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	18
Ysgol Gymraeg Dewi Sant	7
Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant	7
Ysgol Iolo Morganwg	9
Ysgol Pen Y Garth	14
Ysgol Sant Baruc	10
Ysgol Sant Curig	8
Ysgol Y Ddraig	44
<b>Grand Total</b>	<b>1283</b>

Nifer a broseswyd mewn deg diwrnod ysgol neu lai = 1283 (100%) (ac eithrio oedi gyda theuluoedd yn symud cartref a phlant 'anodd eu lleoli').

### **Pa faterion derbyn allweddol a nodwyd ar gyfer yr ardal?**

Mae effeithiolrwydd dalgylchoedd ysgolion ac ardaloedd daearyddol lle mae lleoedd ysgol yn brin yn parhau i gael ei fonitro ac mae unrhyw feysydd sy'n peri pryder yn cael eu hadolygu cyn gynted â phosibl. Ystyrir derbyniadau ysgolion ochr yn ochr â strategaethau cynllunio trefniadaeth ysgolion, mae lleoedd gwag yn parhau i fod yn bwynt trafod gyda'r prif fater o ddisgyblion yn symud i'r ardal yng nghanol y flwyddyn ac yn gwneud cais am leoedd ysgol, yn enwedig yn ardal y Barri lle mae galw mawr am leoedd fel y dangosir gyda grwpiau blwyddyn yn llawn ym Mhen-coedre, SRG a Whitmore ar wahanol gyfnodau drwy gydol y flwyddyn academaidd. Pryder cynyddol yw bod nifer uchel o blant ar y rhestr aros gyda nifer cynyddol o ddisgyblion yn PCA / ADdC (plant sy'n colli addysg / addysg ddewisol yn y cartref) sydd bellach yn dymuno mynychu darpariaeth benodol, ond ni allwn gynnig lle y maent yn hapus i'w dderbyn, ac maent yn parhau ar restrau aros am gyfnodau hir. Mae canlyniadau apeliadau derbyn statudol a data sy'n ymwneud â rowndiau derbyn blynyddol yn cael eu monitro.

Mae manteision a gweithredu derbyniadau ar-lein ar draws awdurdodau derbyn yn bwnc i'w drafod, gyda mwy o eglurder, rhwyddineb cyfathrebu a llai o ymholiadau gan rhieni i'r tîm ymhlith y pethau cadarnhaol a nodwyd hyd yn hyn. Roedd y Fforwm yn falch o nodi ei bod yn ymddangos bod proses dderbyn ar-lein y Cyngor bellach wedi'i sefydlu'n dda gyda chyfartaledd o 95% o rieni yn gwneud cais ar-lein yn ystod 2022/23 sydd yn unol â 95% y llynedd, sydd wedi cynyddu'n raddol o 90% yn 2017/18. Pryder parhaus yw nifer y rhieni nad ydynt yn cyflwyno ffurflen gais ar gyfer y flwyddyn dderbyn a blwyddyn 7 erbyn y dyddiad cau sydd wedi ei gyhoeddi neu'n cyflwyno ceisiadau gydag un dewis yn unig, nad yw yn ysgol y dalgylch yn aml, sydd yn amlach na pheidio yn arwain at ddisgyblion heb leoedd ysgol. Mae swyddogion derbyn yn ceisio cyrraedd targed o 100% ar gyfer ceisiadau a dderbynnir ar gyfer y rowndiau derbyn arferol trwy gyswllt uniongyrchol ag ysgolion cynradd a rhieni, derbyniwyd 99.5% o geisiadau gan yr awdurdod ar gyfer rowndiau derbyn Medi 2023 ar gyfer lleoedd Derbyn a Blwyddyn 7. Mae'r mater o blant anodd eu lleoli yn bryder parhaus ac anawsterau cysylltiedig lleoli.

### **Beth ydyn nhw a sut mae'r fforwm wedi mynd i'r afael â nhw?**

Mae trefniadau derbyn Cynghorau yn destun craffu gan y Fforwm i sicrhau bod trefniadau'n diwallu anghenion poblogaeth disgyblion y fro. Mae'r Fforwm yn parhau i dderbyn diweddariad Trefniadaeth Ysgolion rheolaidd i sicrhau ei fod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â derbyniadau, lleoedd ysgol a threfniadaeth ysgol yn cynnwys datblygiadau mewn addysg Gymraeg a Saesneg. Mae cynrychiolwyr o'r Fforwm Derbyn ar Fforwm y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar ran Bro Morgannwg.

Arweiniodd cynnydd mewn symudiadau wedi'u rheoli at sefydlu panel PICEM, y soniwyd amdano yn flaenorol, i benderfynu ar yr opsiynau gorau sydd ar gael i blant anodd eu lleoli. Mae'r panel PICEM bellach wedi'i wreiddio'n llawn fel partneriaeth waith lwyddiannus rhwng ysgolion a swyddogion awdurdodau lleol ac mae'n parhau i gwrdd yn rheolaidd gyda phenderfyniadau ar waharddiadau, atgyfeiriadau

newydd a diweddariadau ar symudiadau wedi'u rheoli presennol yn cael eu gwneud yn deg ac yn gyfeillgar. Mae'r broses yn gweithio'n dda i gefnogi a diwallu anghenion disgyblion unigol, yn enwedig y rhai sy'n anodd eu lleoli a'r disgyblion mwyaf agored i niwed.

**Pa dduilliau mae'r Fforwm wedi'u defnyddio i gyhoeddi unrhyw gyngor neu benderfyniadau?**

Cyhoeddir cofnodion y Fforwm Derbyn ar wefan y Cyngor ynghyd â'r Adroddiad Blynnyddol. Mae copïau ar gael i'r holl awdurdodau derbyn yn yr ardal. Mae penderfyniadau a chyngor y Fforwm yn cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen Canllaw i Rieni ar Dderbyn i Ysgolion. Mae gwaith y Fforwm, lle bo hynny'n briodol, yn cael ei gyfathrebu gan aelodau'r Fforwm sy'n weithgar ar grwpiau Cyngor ac Addysgol eraill.

**Y dyddiad y cyhoeddwyd cyngor y Fforwm ar Wefan yr Awdurdod Derbyn:** Cofnod cyntaf 29/9/13 (diwygiwyd yn rheolaidd ar ôl cyfarfodydd fforwm)

Hefyd, rhwch y ddolen berthnasol: <https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/admissions/Admission-Forum.aspx>

**Llofnod: S MAWHINNEY** (Ysgrifennydd y Fforwm)

**Dyddiad:**  
**Dychwelwch yr adroddiad cyflawn erbyn 30 Tachwedd i:**

**SchoolsManagementDivision3@wales.gsi.gov.uk**

## Derbyniadau ac Apeliadau Ysgolion (Uwchradd 2022, Derbyn 2022 ac Apeliadau yn ystod y flwyddyn)

Enw'r Ysgol	Nifer derbyn	Nifer y ceisiadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau	Nifer yr apeliadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau a gynhaliwyd ar ôl 30
Ysgol Gynradd Albert	55	55	0	0	
Ysgol Gynradd Ynys y Barri	30	30	1	0	
Ysgol Gynradd Tregatwg	60	60	5	0	
Ysgol Gynradd Cogan	30	30	4	0	
Ysgol Gynradd Colcot	45	38	0	0	
Ysgol Gynradd Dinas Powys	60	57	0	0	
Ysgol Gynradd Evenlode	60	60	8	1	
Ysgol Gynradd Fairfield	45	36	0	0	
Ysgol Gynradd Gladstone	60	48	0	0	
Ysgol Gynradd Gwenfô	30	30	3	0	
Ysgol Gynradd High Street	30	29	0	0	
Ysgol Gynradd Holltwn	60	46	0	0	
Ysgol Gynradd Parc Jenner	30	21	0	0	
Ysgol Gynradd Llandochau	30	22	0	0	
Ysgol Gynradd Llanfair	20	16	0	0	
Ysgol Gynradd Llanganna	15	15	1	0	
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr	30	26	*penderfynir ar geisiadau hwyr ac apeliadau gan y corff llywodraethu		

<b>Enw'r Ysgol</b>	<b>Nifer derbyn</b>	<b>Nifer y ceisiadau llwyddiannus</b>	<b>Nifer yr apeliadau</b>	<b>Nifer yr apeliadau llwyddiannus</b>	<b>Nifer yr apeliadau a gynhaliwyd ar ôl 30</b>
Ysgol Gynradd Oakfield	30	29	0	0	
Ysgol Gynradd Palmerston	30	30	3	0	
Ysgol Gynradd Llanbedr-y-Fro	27	19	0	0	
Ysgol Gynradd y Rhws	53	53	0	0	
Ysgol Gynradd Romilly	90	87	0	0	
Ysgol Gynradd South Point	30	13	0	0	
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Andras	30	30	*penderfynir ar geisiadau hwyr ac apeliadau gan y corff llywodraethu		
Ysgol Gynradd Sain Tathan	30	30	1	1	
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant-y-brid	30	30	*penderfynir ar geisiadau hwyr ac apeliadau gan y corff llywodraethu		
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant	30	22	*penderfynir ar geisiadau hwyr ac apeliadau gan y corff llywodraethu		
Ysgol Gynradd Illtud Sant	54	29	0	0	
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff	30	26	*penderfynir ar geisiadau hwyr ac apeliadau gan y corff llywodraethu		
Ysgol Gynradd Sain Nicolas	18	18	0	0	
Ysgol Gynradd Sili	50	51	7	2	
Ysgol Gynradd Fictoria	60	60	4	0	
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes	22	22	*penderfynir ar geisiadau hwyr ac apeliadau gan y corff llywodraethu		
Ysgol Gynradd y Bont-faen	30	34	3	2	

Enw'r Ysgol	Nifer derbyn	Nifer y ceisiadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau	Nifer yr apeliadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau a gynhaliwyd ar ôl 30
Ysgol Bro Morgannwg	30	30	4	1	
Ysgol Dewi Sant	30	28	1	1	
Ysgol Gwaun Y Nant	60	25	0	0	
Ysgol Pen Y Garth	60	39	0	0	
Ysgol Iolo Morgannwg	30	30	0	0	
Ysgol Sant Baruc	60*	46	0	0	
Ysgol Sant Curig	60	60	0	0	
<b>Cyfanswm Cynradd</b>	1584	1444	45	8	
Ysgol Gyfun y Bont-faen	240	240	3	1	
Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr	180	176	0	0	
Ysgol Uwchradd Pencoedtre	210	240*	3	1	
Ysgol Gyfun Sant Cyres	210	210	9	0	
Ysgol Uwchradd Whitmore	180	188	30	4	
Ysgol Bro Morgannwg	240	206	0	0	
<b>Cyfanswm Uwchradd</b>	1260	1260	45	6	
<b>Cyfanswm</b>	<b>2857</b>	<b>2704</b>	<b>90</b>	<b>14</b>	<b>0</b>